CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

PRYDAU YSGOL DI-DÂL

A oes gennych chi hawl?

Gallwch gofrestru eich plentyn ar gyfer Prydau Ysgol Di-dâl os rydych yn cael unrhyw rai o'r budd-daliadau hyn:

- Cynhaliaeth Incwm
- Lwfans Ceiswyr Swydd Incwm-seiliedig
- Lwfans Cyflogaeth Incwm-berthynol a Chynhaliaeth
- Cynhaliaeth o dan Ran VI o Ddeddf Mewnfudo a Lloches 1999
- Yr elfen 'Warantedig' o gredyd pensiwn y Wladwriaeth
- Credyd Treth Plentyn, a chaniatáu nad oes hawl ganddynt i Gredyd Treth Gweithio a bod ganddynt incwm blynyddol (fel yr aseswyd gan Cyllid a Thollau EM) nad yw'n fwy na £16,190
- Credyd Treth Gweithio 'rhedeg ymlaen' - y taliad y gall rhywun ei dderbyn am bedair wythnos ymhellach wedi iddynt roi'r gorau i gymhwyso ar gyfer Credyd Treth Gweithio
- Credyd Cynhwysol

Darllenwch ymlaen i ddarganfod mwy…

Yr hyn rydych chi a'ch plentyn yn ei gael

Pryd amser cinio iach a chytbwys. Gyda'n systemau di-arian yn ein hysgolion, dim ond chi a'ch plentyn a fydd yn gwybod eu bod yn cael prydau ysgol di-dâl.

A ellwch chi fforddio peidio â gwneud cais?

I wneud cais am brydau ysgol di-dâl gellwch naill ai gael y ffurflen gais yn:

- **Y swyddfa / dderbynfa yn ysgol eich plentyn, neu wefan yr ysgol**
- **Ebost:** budd-dal@ynysmon.gov.uk neu benefits@anglesey.gov.uk
- **Prydau Ysgol Di-Dâl**
  Adran Budd-daliadau Tai
  Swyddfeydd Cyngor Sir Ynys Môn
  Llangefni
  Ynys Môn
  LL77 7TW
- http://www.anglesey.gov.uk/education/schools/school-meals/free-school-meals/
- **Neu gallwch alw** 01248 752658 neu 01248 752226

Unwaith y byddwch wedi cwblhau'r ffurflen a'i chyflwyno gyda'r dogfennau cefnogol i naill ai'r ysgol neu'r Awdurdod Lleol, bydd eich plentyn yn dechrau cael prydau ysgol di-dâl.

Ni fydd unrhywun yn gwybod eich bod wedi cofrestru ac ni fydd yn effeithio ar unrhyw fudd-daliadau eraill yr ydych yn eu hawlio.

A oeddech yn gwybod?
Am bob plentyn sy'n derbyn prydau ysgol di-dâl mae eu hysgol yn derbyn mwy o arian.